The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Prosiect Solar Maen Hir |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010156 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 16 Mehefin 2023 |
| **Cyfarfod gyda** | Lightsource BP |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod Cychwynnol |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at chwe mis cyn cyhoeddi'r nodyn cyfarfod, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno (os bydd Ymgeisydd yn gofyn amdano am resymau masnachol).

## Yr Ymgeisydd

Busnes solar rhyngwladol yw'r Ymgeisydd, sydd wedi cynhyrchu tua 8.4GW o ynni hyd yma mewn 19 o wledydd, gan gynnwys Cymru. Mae tîm yr Ymgeisydd yn cynnwys:

- LDA (Amgylcheddol);
- DWD/LDA (Cynllunio);
- Pinsent Masons (Cyfreithiol);
- Counter Context (Cyfathrebu)
- Ardent (Cyfeirnodi Tir).

## Y Datblygiad Arfaethedig a'r Safle

Mae'r Ymgeisydd yn cynnig aráe solar, gydag allbwn o fwy na 350MW. Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys Systemau Batris Storio Ynni (BESS), is-orsaf newydd (lleoliad i'w gadarnhau) a rhai elfennau Datblygiad Cysylltiedig. Mae llinell uwchben (OHL) 400kv bresennol, o Wylfa i Bentir, yn mynd heibio'r safle, y bydd yr Ymgeisydd yn cysylltu â hi; ni chynigir unrhyw OHLs ychwanegol. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys Budd Net i Fioamrywiaeth trwy gadwraeth a gwella bywyd gwyllt presennol.

Bydd y Datblygiad Arfaethedig hefyd yn cynnwys elfen o berchnogaeth gymunedol, sy’n golygu y bydd yr elw ar gyfer yr elfen honno o’r cynllun yn cael ei rannu â’r gymuned.

Bydd yr aráe wedi’i ffurfio o dair llain o dir ar wahân. Mae’r llain ogleddol yn cynnwys hen safle Shell yn Rhosgoch, mae’r llain ganolog yn ffinio â Llyn Alaw ac mae’r llain ddeheuol i’r gogledd o Langefni, sydd i gyd o fewn ffin weinyddol Cyngor Sir Ynys Môn (IoACC) yng ngogledd Cymru.

Nid yw’r lleiniau tir o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), safleoedd Ramsar ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), ond maen nhw’n agos iddynt. Mae henebion cofrestredig ar y lleiniau tir ac yn agos iddynt, hefyd (gan gynnwys meini hir, tomenni claddu ac aneddiadau hanesyddol).

## Ymgysylltu

Mae’r Ymgeisydd wedi bod yn ymgysylltu ag IoACC ers mis Mawrth 2021. Mae’n awyddus i gefnogi dyheadau IoACC i fod yn ynys ynni a chyfrannu at dwf economaidd yr ardal. Mae’r Ymgeisydd yn ceisio hyrwyddo’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan o’r Datblygiad Arfaethedig.

Bydd ymgysylltiad yn cael ei gynnal yn ystod yr haf 2023 ag amryw randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cynghorau cymuned.

Er nad yw’r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal rownd arall o ymgynghori anstatudol cyn yr ymgynghoriad statudol gofynnol, cadarnhaodd y bydd ymgysylltiad yn parhau â rhanddeiliaid, tirfeddianwyr, cynghorau cymuned ac Aelodau Seneddol/Aelodau’r Senedd. Fel y cyfryw, bydd y gymuned yn ymwybodol o’r Datblygiad Arfaethedig. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod ei Adroddiad Ymgynghori’n esbonio’n glir pa agweddau y mae’r Ymgeisydd yn ymgynghori arnynt ar ba gam, yn enwedig os bydd gwelliannau’n cael eu gwneud i’r Datblygiad Arfaethedig yn ystod y cam cyn-ymgeisio.

## Arolygon

Mae rhywfaint o waith arolygu eisoes wedi dechrau, gan gynnwys ecoleg, tirwedd a gweledol a dosbarthu tir amaethyddol. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd gwaith arolygu ychwanegol yn dechrau cyn hir a’i fod yn trafod y mater hwn gyda CADW ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd. Ar hyn o bryd, nid yw’r Ymgeisydd wedi dod ar draws unrhyw anawsterau wrth gael cytundeb tirfeddianwyr ar gyfer mynediad i dir i gynnal arolygon.

## Caffael Gorfodol

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod rhyw 21 o dirfeddianwyr sydd â buddiant yn y lleiniau tir ar hyn o bryd. Mae Penawdau’r Telerau wedi cael eu cytuno gyda phob tirfeddiannwr ac mae’r Ymgeisydd yn ceisio sicrhau hawliau’n wirfoddol. Fodd bynnag, gallai’r Gorchymyn

Caniatâd Datblygu (DCO) gynnwys pwerau Caffael Gorfodol fel opsiwn wrth gefn. Nid oes unrhyw Dir y Goron wedi'i gynnwys yn Nherfynau'r Gorchymyn yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

## Dyddiadau Allweddol

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg o'i raglen ac amlygodd y dyddiadau allweddol canlynol:

- Cyflwyno cais am Farn Gwmpasu: Canol i ddiwedd mis Medi 2023
- Ymgynghoriad Statudol: Chwarter 1 – Chwarter 2 2024 (am gyfnod o tua 10 wythnos);
- Cyflwyno'r cais DCO: Chwarter 4 2024.

## Camau Gweithredu

- Bydd yr Arolygiaeth yn chwilio am ddyddiadau addas ar gyfer cyfarfod yn gynnar ym mis Medi, cyn cyflwyno'r Cais Cwmpasu; (**Nodyn Ôl-Gyfarfod:** mae'r dyddiadau canlynol ar gael i ni):

    - Dydd Llun 4 Medi 2023 (10:00-11:00);
    - Dydd Mawrth 5 Medi 2023 (10:00-11:00);
    - Dydd Iau 7 Medi 2023 (09:30-10:30).

- Dylai'r Ymgeisydd roi'r wybodaeth berthnasol am y prosiect i'r Arolygiaeth er mwyn paratoi tudalen brosiect ar gyfer gwefan yr Arolygiaeth.